

# Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru:

## Adroddiad Terfynol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru:

**Ebrill 2020**

LEADERS UNLOCKED

SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Hanes yr Adroddiad Hwn | 3 |
| Hanes Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru | 4 |
| Yr Hyn a Wnaethom | 4 |
| Ein Partneriaid | 8 |
| Blaenoriaeth 1: Iechyd Meddwl | 9 |
| Blaenoriaeth 2: Problemau Cyffuriau | 12 |
| Blaenoriaeth 3 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 15 |
| Blaenoriaeth 4: Y berthynas rhwng Pobl Ifanc a'r Heddlu | 18 |
| Casgliad | 21 |
| Cymeradwyaeth | 22 |

# Cyflwyniad

Sefydlwyd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yn 2019 gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Arfon Jones. Hwyluswyd y prosiect gan Leaders Unlocked.

Mae Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru (NWYC) yn caniatáu i bobl ifanc 14-25 oed weithio mewn partneriaeth gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Heddlu Gogledd Cymru i ymdrin â phroblemau brys. Mae'r prosiect yn cynrychioli agwedd newydd mewn ymgysylltu pobl ifanc ledled Gogledd Cymru i siapio strategaethau plismona ac atal trosedd, a chynorthwyo datblygiad Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd. Am fwy o wybodaeth, gweler **www.northwales-pcc.gov.uk**

Amcanion allweddol y prosiect oedd fel a ganlyn:

- Recriwtio 20 – 25 o aelodau ledled Gogledd Cymru i ymuno â Chomisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru, gyda phwyslais penodol ar ymgysylltu'r rhai hynny o grwpiau a chymunedau 'anodd eu cyrraedd'.
- Gweithio gydag aelodau Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru i nodi'r pynciau blaenoriaeth allweddol yr oeddent yn awyddus i fynd i'r afael â hwy drwy'r prosiect.
- Rhoi hyfforddiant sgiliau ymarferol i aelodau Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru y maent eu hangen ar gyfer eu rôl.
- Cynllunio a chyflwyno 'Sgwrs Fawr' i alluogi Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru i gasglu safbwyntiau ystyrlon oddi wrth o leiaf 1200 o bobl ifanc ledled Gogledd Cymru o ran y blaenoriaethau.
- Cynorthwyo Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru i droi'r dystiolaeth i ganfyddiadau ac argymhellion allweddol a'i dosbarthu mewn cynhadledd derfynol gyda'r CHTh, yr Heddlu ac asiantaethau partner.

Drwy'r prosiect hwn, mae grŵp o 28 o aelodau ifanc wedi cael eu recriwtio o bob rhan o Ogledd Cymru. Mae ein haelodau wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r CHTh a Heddlu Gogledd Cymru i flaenoriaethu meysydd pryder. Mae'r blaenoriaethau hyn wedi'u penderfynu gan ein haelodau.

Hoffem ddiolch i Gyngor Cymreig Gwasanaethau Ieuenctid Cymru (CWVYS) a'r Urdd am eu cydweithrediad am hwyluso a chynorthwyo gyda'r Gymraeg er mwyn i waith y Comisiwn fod yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg.

Mae Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yn cael ei gyflwyno gan Leaders Unlocked, sef menter gymdeithasol sy'n anelu i alluogi pobl ifanc i gael llais cryfach ar y penderfyniadau sy'n effeithio eu bywydau. Mae Leaders Unlocked wedi sefydlu Comisiynau Ieuenctid gyda CHTh mewn 9 rhanbarth arall ac yn bwriadu ehangu ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

Am fwy o wybodaeth am Leaders Unlocked, ewch ar: **www.leaders-unlocked.org**

## Hanes yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o **1200 o sgyrsiau** gyda phobl ifanc o bob rhanbarth yng Ngogledd Cymru. Casglwyd y canlyniadau mewn digwyddiadau ymgysylltu a arweiniwyd gan ieuenctid a digwyddiadau allgymorth gyda sefydliadau amrywiol drwy Ogledd Cymru. Targedwyd cyfleusterau addysgiadol, grwpiau ieuenctid a sefydliadau ieuenctid eraill yn bennaf. Mae ein canfyddiadau wedi'u casglu gan ddefnyddio cardiau post y Comisiwn, sy'n gadael i bobl ifanc gofnodi eu barn ac awgrymu datrysiadau posibl.

Mae'r adroddiad yn dyrannu adran i bob blaenoriaeth, sy'n cynnwys dadansoddiad cynhwysfawr o farn pobl ifanc. Defnyddir dyfyniadau penodol gan unigolion, a'r argymhellion allweddol sydd wedi'u datblygu gan y Comisiwn Ieuenctid drwy ystyried y canfyddiadau'n ofalus.

Bwriad yr adroddiad hwn yw gweithredu fel cofnod dilys ac annibynnol o farn pobl ifanc sydd wedi'u rhoi i ni drwy broses y 'Sgwrs Fawr'. Ei fwriad hefyd yw bod yn sail gweithredu pellach ar ran Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ac asiantaethau partner perthnasol.

# Hanes Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru




Diben Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yw cynorthwyo, herio a hysbysu gwaith Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Mae Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yn seiliedig ar fodel a gymhellir gan ieuenctid sy'n caniatáu i bobl ifanc gyflwyno atebion i'r problemau allweddol y maent yn eu gweld yn eu cymunedau. Mae hyn yn hytrach na modelau ymgynghori traddodiadol sydd ddim yn defnyddio arweinyddiaeth a barn pobl ifanc i'r fath raddau. Mae hon yn 'Agwedd Hawliau Plant' sy'n rhan hanfodol o Strategaeth Plant a Phobl Ifanc Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Elfen allweddol o rôl Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yw casglu safbwyntiau pobl ifanc drwy ymgysylltiad â chyfoedion. Dyma gryfder y prosiect, gan ei fod yn rhoi amgylchfyd diogel i bobl ifanc siarad â'u cyfoedion am broblemau yn eu cymunedau. Mae'r dull hwn yn caniatáu i wybodaeth fwy gonest gael ei chasglu.

## Yr hyn a wnaethom

## Recriwtio aelodau newydd

Yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2019, gwnaeth Leaders Unlocked recriwtio 28 o aelodau i'r Comisiwn. Cafodd yr holl Gomisiynwyr Ieuenctid eu dewis drwy broses recriwtio dau gam, gan gynnwys ffurflen gais i gychwyn a chyfweliad ffôn gyda chynrychiolwyr o Leaders Unlocked. Drwy gyswllt rhagweithiol gyda sefydliadau lleol, gwnaethom sicrhau fod y cyfle wedi'i hyrwyddo'n eang i bobl ifanc o bob cymuned drwy holl ranbarthau Gogledd Cymru. Roedd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau ledled y sectorau addysg, statudol a gwirfoddol. Mae'r grŵp yn cynnwys plant mewn gofal a rhai sy'n wedi gadael gofal, pobl ifanc anabl, LHDTQ+, rhai gyda phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol a phobl ifanc gyda chyflyrau iechyd meddwl.

Gellir dadansoddi amrywiaeth yr aelodau fel a ganlyn:

11 yn wrywaidd (40%), 15 yn fenywaidd (53%), 2 gwell ganddynt beidio â dweud (7%)

5 yn nodi fel (BME) Pobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig (17%)

7 yn nodi fel (LHDTQ+) Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Cwestiynu (24%)

4 yn nodi fel (LLDD) Dysgwr gydag Anawsterau neu Anableddau Dysgu (14%)

## Nodi problemau blaenoriaeth

Yn eu cyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2019, gweithiodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru gyda'i gilydd i nodi 4 blaenoriaeth allweddol a effeithiodd eu grwpiau cyfoedion a'u cymunedau. Roedd y dewisiadau hyn yn seiliedig ar brofiadau unigol a chawsant eu dylanwadau'n unig gan yr aelodau, yn hytrach na chael eu harwain gan y CHTh neu staff Leaders Unlocked. Roedd eu dewisiadau fel a ganlyn:

1. Iechyd Meddwl
2. Problemau Cyffuriau
3. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
4. Y berthynas rhwng Pobl Ifanc a'r Heddlu

## Hyfforddiant sgiliau



Gwnaeth Leaders Unlocked roi hyfforddiant sgiliau ymarferol i aelodau Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru i'w galluogi i lwyddo'n eu rôl a chynorthwyo aelodau gyda'u datblygiad personol. Digwyddodd yr hyfforddiant mewn sawl cyfarfod tîm, ac roedd yn ymgorffori ystod eang o sgiliau. Roedd y sgiliau hyn yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i:

**Sgiliau a thechnegau gweithdai** – hyfforddi aelodau i ymgysylltu gyda phobl ifanc mewn trafodaeth mewn modd sy'n caniatáu eu cynulleidfa i deimlo'n ddiogel i rannu eu barn onest.

**Sgiliau cyflwyno** – drwy roi llwyfan lle gall ein haelodau drafod sut y teimlant y dylai bob blaenoriaeth gael ei thrin, roedd y Comisiynwyr Ieuenctid yn gallu cynyddu eu hyder i siarad â chynulleidfaoedd mawr. Gwellhawyd y sgiliau hyn ymhellach drwy'r gweithdai amrywiol a gwblhawyd drwy gyfnod proses y Sgwrs Fawr.

**Sgiliau dadlau** – rhoddwyd y sgiliau perthnasol i'r Comisiynwyr Ieuenctid i ffurfio dadleuon cryf mewn amrywiol sefyllfaoedd dadlau. Defnyddiwyd y sgiliau hyn yn y 'Sgwrs Fawr'. Derbyniodd aelodau'r Comisiwn hyfforddiant ACEs hefyd a wnaeth ehangu eu sgiliau ymhellach a'u paratoi ar gyfer sgyrsiau gyda rhai o'r bobl ifanc mwyaf bregus yn y gymuned.

## Creu'r Pecyn Cymorth ar gyfer Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru

Gweithiodd aelodau Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru gyda'i gilydd i lunio gweithdy i ymdrin â phob un o'u blaenoriaethau'n seiliedig ar sut roeddent yn teimlo y byddai pobl ifanc yn ymgysylltu orau gyda'r pynciau. Lluniwyd y gweithdai hyn mewn ffordd i sicrhau'r llif sgwrs gyda'r bobl ifanc er mwyn casglu canlyniadau perthnasol ar bob pwnc blaenoriaeth.

At ddiben casglu data, creodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru gardiau post i gasglu'r wybodaeth berthnasol i'w hymchwil. Mae'r cerdyn post yn dangos bob blaenoriaeth yr oedd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru yn casglu ymatebion arnynt, gan ganiatáu pobl ifanc i roi eu barn ar bob blaenoriaeth, waeth bynnag y gweithdy roeddent yn mynd iddo.

Mae'r cardiau post wedi tynnu sylw at farnau a phrofiadau bywyd go iawn y gall pobl ifanc deimlo'n annifyr yn eu trafod. Mae'r cardiau post wedi'u llunio fel na ellir priodoli'r ymateb at rywun penodol.

## Gweithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd

Drwy gydol y prosiect hwn, mae Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru wedi bod yn gysylltiedig â swyddogion allweddol o Swyddfa'r Comisiynydd a Heddlu Gogledd Cymru. Maent wedi dangos eu cefnogaeth drwy ddod i gyfarfodydd a derbyn y newyddion diweddaraf o ran cynnydd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru. Mae rhyngweithio'r swyddogion hyn yn caniatáu i Gomisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru ledaenu ei lais ymhellach a rhoi cynrychiolaeth gadarnhaol o'n gwaith i gymunedau Gogledd Cymru.

## Cynnal y 'Sgwrs Fawr'

Drwy ymestyn allan at ystod eang o sefydliadau cymunedol a mudiadau addysg, mae Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru wedi casglu dros **1200** o ymatebion adeiladol gan bobl ifanc ledled y rhanbarth o ran eu pedwar blaenoriaeth. Mae'r Comisiynwyr Ieuenctid wedi cyflwyno cyfanswm o 35 gweithdy mewn ystod amrywiol iawn o leoliadau. Anogwyd y bobl ifanc a oedd yn dod i'r gweithdai hyn i roi eu barn nhw eu hunain drwy gydol y profiad er mwyn cymell dadl onest. Cryfhaodd hyn y canlyniadau a geir ym mhob gweithdy gan fod eu meddyliau'n seiliedig ar sgyrsiau manwl a ddim yn feddwl cychwynnol yn unig.

Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad o'r ymatebion ar gyfer pob blaenoriaeth:

| | |
|---|---|
| **Iechyd Meddwl** | **418** |
| **Problemau Cyffuriau** | **311** |
| **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** | **349** |
| **Y berthynas rhwng Pobl Ifanc a'r Heddlu** | **212** |
| **Cyfanswm** | **1290** |

## Cyflwyno ein canfyddiadau ac argymhellion yng nghynhadledd y 'Sgwrs Fawr'

Yng 'Nghynhadledd y Sgwrs Fawr' ar 27 Chwefror 2020, gwnaeth aelodau o Gomisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru gyflwyno eu prif ganfyddiadau ac argymhellion i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, swyddogion allweddol o Heddlu Gogledd Cymru ac asiantaethau partner. Roedd y digwyddiad yn cynnwys cyflwyniad o'n canfyddiadau, panel agored ar gyfer cwestiynau a thrafodaethau bwrdd crwn rhwng Comisiynwyr Ieuenctid a chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, partneriaid o'r sector cyhoeddus, addysgwyr, uwch weithwyr heddlu ac ieuenctid.

## Ein Partneriaid

Rydym yn ddiolchgar am y cymorth rydym wedi'i dderbyn gan amrywiaeth eang o bartneriaid lleol sydd wedi chwarae rôl allweddol mewn cynnal gweithgareddau Sgwrs Fawr y Comisiwn Ieuenctid a chynorthwyo yn y broses recriwtio:

Gwasanaeth Ieuenctid CDS

Gwasanaeth Ieuenctid Conwy

Ysgol Uwchradd Elfed

Sorted Sir y Fflint

Friday Fitness

Ysgol Glan Clwyd

John Lynns Black Belt Academy

Coleg Llandrillo – Llandrillo yn Rhos

Coleg Y Rhyl

Gwasanaeth Ieuenctid Rhuthun

Gofalwyr Ifanc WCD

Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Ynys Mon

Youth Shedz

Grŵp Cymorth Ieuenctid yn Ysgol Uwchradd Dinbych

Ysgol David Hughes

Grŵp Ffitrwydd Ysgol John Bright

Ysgol Treffynnon

Diolch arbennig i'r Comisiynwyr Ieuenctid unigol sydd wedi cynnig eu hamser a'u hymdrechion i wneud y prosiect hwn yn llwyddiant:

Adam Vallely

Alexandra Wilson

Allana Edwards

Anna Catherine Jones

Bethan Jayne Rogers

Bradley Williams

Charlie Parry

Claudia Maria Soares

Daniel Dain Dodd

Ella McDowall

Emily Jones

Erin Gwyn

Gethin Rogers

Grace Coulman Williams

Hanna Roberts

Jacob Riddle

Joel Ramos

John Lloyd-Williams

Joshua Taylor

Kieran Hughes

Lima Dos Ramos

Louise Edwards

Mair Williams

Nathan Butler

Niamh Drummond-Welsby

Sara Jones

Sarah Goodsir

Seren Hughes

Diolch i Ali Roberts a Jade Walsh sef cydlynydd a chynorthwyydd prosiect eleni a oedd yn allweddol wrth wireddu'r prosiect.

# Blaenoriaeth 1: Iechyd Meddwl



Mae llesiant meddyliol yn cynnwys iechyd cymdeithasol, corfforol, seicolegol ac ysbrydol rhywun – mae'n fwy nag ond absenoldeb afiechyd meddwl. Mae angen iechyd meddwl er mwyn ymdopi gyda straen arferol bywyd. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae symudiad byd-eang wedi bod at gryfhau cymorth i bobl gyda phroblemau iechyd meddwl. Yn ôl y bobl ifanc rydym wedi siarad â nhw ledled Gogledd Cymru, mae cymorth iechyd meddwl yn aml yn brin o'u gofynion.

Mae iechyd meddwl wedi dod yn achos pryder i lawer o bobl ifanc yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae iechyd meddwl yn effeithio pobl ifanc mewn amrywiol gyfnodau o'u datblygiad, o addysg, cyflogaeth a bywydau cymdeithasol.

Gwnaeth Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru fwriadu gwrando ar brofiadau a safbwyntiau pobl ifanc a all fod wedi brwydro gyda phroblemau iechyd meddwl. Gwnaethom anelu i edrych ar ba gymorth sydd angen bod mewn lle er mwyn cynorthwyo pobl i deimlo'n iach yn feddyliol, ac amlinellu sut y gallai'r heddlu ac asiantaethau eraill wneud pethau'n wahanol.

I gyd, cafodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru 418 sgwrs am iechyd meddwl gyda phobl ifanc ar draws y rhanbarth.

## Yr hyn a wnaethom ei ganfod

Mae pobl ifanc wedi dangos fod cymorth iechyd meddwl yn **anodd cael mynediad ato,** neu nad yw'n cael ei hysbysebu ar raddfa ddigon mawr. Mae hyn yn hynod amlwg mewn cymunedau mwy gwledig lle mae pobl yn teimlo'n hynod ynysig:

> *"Mae rhai ohonom ni'n cael trafferthion ar ein pen ein hunain does gennym neb i siarad â nhw. Dydi'r bobl o'n cwmpas ddim yn deall yr hyn rydym yn mynd drwyddo. Dwi'n brwydo gyda meddyliau drwg a dwi ddim yn gwybod beth sy'n bod arna i."*

> *"Fel rhywun sy'n dioddef iechyd meddwl ac yn byw gydag aelodau o'r teulu sydd hefyd yn cael trafferthion, dwi'n meddwl y dylai fod yn haws cael cymorth. Mae pawb sy'n siarad am iechyd meddwl yn dweud am siarad â phobl eraill. Ond allwch chi ddim mynd atynt ac mae'n eithriadol o anodd i siarad â chwnselydd yn yr ysgol."*

*"Dwi wedi cael problemau iechyd meddwl ac un o'r problemau mwyaf oedd gen i oedd nad oeddwn i'n gwybod lle i fynd am gymorth ac roeddwn ei eisiau."*

*“Mae llawer o help wedi'i anelu at faterion 'cymedrol ' ac mae gan feddygon amseroedd aros hir ar gyfer problemau ' difrifol ' sydd ac sydd ddim yn bygwth bywyd "*

Mae pobl ifanc yn teimlo nad yw problemau iechyd meddwl yn **cael eu cymryd o ddifrif** gan y cyhoedd.  Y stigma tuag at bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yw’r prif ffactor pam nad yw pobl ifanc yn trafod eu problemau:

*"Does neb yn poeni am iechyd meddwl pobl eraill ac nid ydynt yn ymdrin â'u problemau. Mae gen i gorbryder ac  iselder a does neb yn poeni na'n ceisio fy helpu."*

*"Gall pobl gael eu hystyried fel jôc am drafod eu problemau. Nid yw'n cael ei drin mor ddifrifol ag y dylai. Mae'n druenus fod pobl yn meddwl nad yw'n rhywbeth i feddwl yn ddyfnach amdano. Mae dau beth arall sydd angen digwydd yn hytrach na thrafod y mater cyffredin hwn. Mae angen i bawb weithredu ar gynorthwyo iechyd meddwl pobl."*

*"Mae iechyd meddwl yn effeithio llawer o bobl sy'n agos i mi, a dwi'n teimlo fod llawer o stigma ynghylch y pwnc hwn."*

*"Cael fy nhrin fel jôc gan rai pobl."*

Mae'r bobl ifanc rydym wedi siarad â nhw wedi dangos fod gan broblemau iechyd meddwl **effaith ar eu rhwydweithiau teuluol** – gall gweld perthnasau'n brwydro gyda'u hiechyd meddwl niweidio eu hiechyd meddwl eu hunain:

*"Dwi wedi cael llawer o broblemau gydag iechyd meddwl gan fod fy chwaer fy hun ag anabledd iechyd meddwl.  Mae llawer o bobl yn meddwl ei fod ond yn effeithio'r un sydd â'r broblem ond mae'n effeithio'r teulu hefyd. Yn ein teulu ni, rydym wedi cael cannoedd o ddadleuon dros y blynyddoedd oherwydd iechyd meddwl fy chwaer."*

*"Mae gen i PTSD oherwydd fy mod wedi gweld llawer o farwolaethau fel un fy mam, fy nghyn gariad a ffrindiau."*

Dywedodd pobl ifanc wrthym ni mai un o'r prif ffactorau am y cynnydd mewn problemau iechyd meddwl mewn pobl ifanc yw **pwysau cynyddol systemau addysg** a'r angen i ragori. Mae gormod o ffocws ar yr ochr academaidd mewn ysgolion – gwersi, arholiadau, ayyb  – a **llai o ffocws ar sesiynau cyfoethogi** a ddylai gael eu defnyddio i gynorthwyo llesiant pobl ifanc:

*"Mae mwy o bobl ifanc yn dioddef problemau iechyd meddwl, yn aml pan maent yn teimlo eu bod yn unig neu'n poeni am bethau gwahanol fel yr ysgol."*

*"Dwi'n dioddef gorbryder. Yr ysgol sy'n ei sbarduno rhan fwyaf o'r amser. Mae'n gwneud oherwydd y pwysau a'r diffyg cymorth yma."*

*"Gall iechyd meddwl effeithio go iawn ar addysg disgyblion. Dwi'n meddwl fod angen i ysgolion roi mwy o gymorth i'r plant sydd ei angen. Ond dwi'n gweld fod ysgolion yn ceisio gwneud mwy o wersi ar Iechyd Meddwl."*

*"Mae'r broblem yn cynyddu mewn ysgolion ac addysg mewn mwy o ffyrdd nag yr ydym yn ei feddwl. Mae pobl yn dioddef ac nid ydynt hyd yn oed yn sylweddoli."*

Mae pobl ifanc hefyd wedi awgrymu fod y cynnydd mewn problemau iechyd meddwl yn ystod y blynyddoedd diweddaf yn cyd-fynd â thwf  llwyfannau **cyfryngau cymdeithasol.** Mae pobl yn beirniadu eu hunain ar sail pobl eraill ac maent yn aml yn mynd ar ôl dilysiad. Pan na dderbynnir hyn, effeithir ar eu hiechyd meddwl. Gall hefyd fod yn ddull o ledaenu casineb, sy'n effeithio'n negyddol ar grwpiau lleiafrifol:

*"Dwi'n teimlo fod cyfryngau cymdeithasol yn broblem fawr i lawer o blant yn eu harddegau. Gallwch gael eu trolio ar-lein am gael problemau iechyd meddwl.”*

*"Dwi'n meddwl fod pobl ifanc yn defnyddio'r term "isel" y dyddiau hyn oherwydd y cyfryngau cymdeithasol!"*

*"Mae pawb eisiau pobl i hoffi eu cyhoeddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Pan nad ydynt yn eu cael, nid ydynt yn teimlo eu bod ddigon da."*

Yn bwysicach, dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod eisiau gweld mwy o **addysg** ar broblemau iechyd meddwl. Yn ôl y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw, mae stigma a chasineb yn seiliedig ar ddiffyg addysg, felly'r ffordd fwyaf effeithiol o atal hyn yw darparu'r **adnoddau addysgiadol** sydd eu hangen ar gyfer iechyd meddwl. Dylai hyn fod yn berthnasol i **bobl ifanc ac oedolion,** yn enwedig yn y system heddlu ac addysg:

*"Iechyd meddwl a ffyrdd ar sut i siarad am sut rydych yn teimlo i gael ei ddysgu yn yr ysgol gynradd fel y gallwch siarad am eich teimladau yn yr ysgol uwchradd."*

*"Dylai athrawon ymdrin â'r sefyllfa gyda meddwl agored a deall yr amodau. Ewch i gael eich addysgu!"*

*"Mae'n teimlo nad yw'r heddlu yn deall iechyd meddwl yn llawn – mae'n teimlo ein bod yn cael ein cosbi am 'ei cholli hi.'"*

## Ein Hargymhellion

### Ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru

- **DEFNYDDIO'R CYFRYNGAU CYMDEITHASOL** fel llwyfan i godi ymwybyddiaeth am broblemau iechyd meddwl a sut mae'r heddlu'n ymdrin â nhw
- **CYNNWYS POBL IFANC** mewn hyfforddiant iechyd meddwl a chynllunio hyfforddiant iechyd meddwl yn y dyfodol

### Ar gyfer y CHTH a Phartneriaid:

- Annog y gwasanaeth **'I CAN' i GYNNWYS POBL IFANC**
- Sicrhau fod **GWASANAETHAU CYMORTH AR GAEL YN BAROD** ac yn **HAWDD CAEL MYNEDIAD ATYNT**
- Annog ysgolion i gynnig **MANNAU DIOGEL** i ddisgyblion ymlacio

### Ar gyfer y Comisiwn Ieuenctid:

- Parhau i gynorthwyo asiantaethau gydag **ADDYSG RHWNG CYFOEDION** a hysbysu pobl ifanc sut i gael **CYMORTH A A THEIMLO'N DDIOGEL**
- Llunio posteri i **GODI YMWYBYDDIAETH** am leoedd diogel a gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn lleol
- Parhau i **ANNOG POBL IFANC** i drafod eu pryderon iechyd meddwl mewn amgylchedd diogel

# Blaenoriaeth 2: Problemau Cyffuriau



Gall camddefnyddio cyffuriau arwain yn aml at droseddau pellach fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, fandaliaeth, trais a byrgleriaeth. Mae gwefan Heddlu Gogledd Cymru yn dangos fod, ar gyfartaledd, 125 o droseddau cyffuriau bob mis yng Ngogledd Cymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Ionawr 2020, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fel y cyfryw, mae'n gadarnhaol gweld fod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn awr yn cynnig gwasanaethau adsefydlu i'r rhai hynny a ganfuwyd yn meddu cyffuriau o'i gymharu ag erlyn a charcharu. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn credu fod dal mwy i'w wneud i ymdrin â defnyddio cyffuriau.

Mae pobl ifanc ledled Gogledd Cymru wedi dweud wrthym ni fod cyffuriau'n hynod hygyrch, hyd yn oed o oedran ifanc iawn. Mae hyn yn creu teimlad anniogel yn y gymuned ieuengach ac yn rhoi pobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio arnynt drwy droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Nid yw pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel allan ar y strydoedd ac maent yn teimlo na allent fynd allan heb gael pwysau gan gyfoedion i yfed a chymryd cyffuriau. Maent hefyd yn poeni am gymysgu mewn gwrthdaro rhwng gangiau a'u troseddau.

Aeth Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru ati i sefydlu'r pryderon oedd gan bobl ifanc am gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Mae'r pryderon hyn i'w defnyddio fel templed ar gyfer ymgysylltu gyda phobl ifanc sydd â dibyniaethau ac i annog pobl i gael sgyrsiau am effeithiau negyddol camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

I gyd, cafodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru **311** sgwrs am broblemau cyffuriau gyda phobl ifanc yn y rhanbarth.

## Yr hyn a wnaethom ei ganfod

Mae pobl ifanc wedi nodi fod defnyddio cyffuriau'n fwy amlwg mewn **ardaloedd gwledig**, gan fod llai o **weithgareddau hamdden** ar gael i bobl ifanc. Mae hefyd cred fod defnyddio cyffuriau'n uwch mewn ardaloedd gwledig gan fod **presenoldeb yr heddlu'n** is:

> *"Mae cyffuriau'n beth mawr yng nghefn gwlad gan nad yw'r heddlu chwilio am neb yn y fan honno."*
>
> *"Nid yw pobl yn cael eu dal am gael cyffuriau yng nghefn gwlad."*

*"Dylai'r heddlu feddwl am sut i ymdrin â chyffuriau yng nghefn gwlad."*

*"Erioed wedi gweld neb yn cael eu harestio am hyn yng nghefn gwlad felly mae'n cael newyddion fel hyn yn y cyfryngau."*

Mae pobl ifanc wedi dod yn gynyddol ymwybodol o **gamfanteisio** pobl ifanc gan werthwyr cyffuriau ac maent yn pryderu am eu diogelwch. Gwnaeth y bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw drafod sut mae defnydd cynyddol o gyffuriau wedi'u gwneud **yn ofnus** yn eu cymuned leol:

*"Pobl ar sbeis yn y dref a gorfod cerdded heibio iddynt ac maent yn holi am bres – gwneud i fi boeni'n fawr a ddim yn ddiogel o gwbl."*

*"Dwi'n credu fod llawer gormod o blant yn defnyddio mynediad cyfreithiol ac anghyfreithlon at gyffuriau i chwilio am rai. Tra maent o dan oed, maen nhw'n camddefnyddio'r sylweddau."*

*"Mae pobl ifanc, gan gynnwys pobl glyfar a deallus, â salwch meddwl yng nghenhedlaeth heddiw. Maen nhw'n derbyn unrhyw beth maen nhw'n dod ar ei draws fel cyffuriau. Mae mwy a mwy o bobl ifanc yn Sir Ddinbych yn dibynnu ar gyffuriau."*

Mae pobl ifanc yng Ngogledd Cymru wedi mynegi nad ydynt yn teimlo fod yr heddlu'n gwneud digon i rwystro'r cynnydd mewn defnyddio cyffuriau ymysg pobl ifanc. Maent yn teimlo fod camddefnyddio cyffuriau yn **cael ei anwybyddu'n eang** tan ei bod hi'n rhy hwyr:

*"Mae pobl mor ifanc â 13 oed yn gwerthu sigarets ac yn defnyddio cyffuriau ac mae'n teimlo fel ei bod yn cael ei anwybyddu."*

*"Dwi'n meddwl fod gormod o blant yn cymryd a gwerthu cyffuriau. Nid yw'r heddlu'n gwneud llawer."*

*"Dwi'n gwybod am bobl sy'n byw mewn cartref lle mae gwerthu cyffuriau'n digwydd bob amser. Mae'r heddlu'n mynd yno ac maent ond yn cael eu hanwybyddu neu eu diystyru."*

*"Mae gormod o bobl ar y strydoedd sydd wedi bod ar gyffuriau ac mae'r heddlu ond yn cerdded heibio a gwneud dim. Maen nhw'n fygythiol."*

*"Os yw'r heddlu'n gweld grŵp o bobl sydd wedi bod yn defnyddio cyffuriau, yna dylent eu symud at sefydliad a all eu cynorthwyo yn hytrach na'u bod ar y strydoedd."*

Mae pobl ifanc hefyd wedi awgrymu nad yw **addysg draddodiadol** yn gwneud digon i ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau. Maent yn credu y dylai defnyddio cyffuriau gael ei drafod ymhellach mewn fformat sydd ddim yn teimlo fel darlith:

*"Athrawon yn gofyn cwestiynau a blwch nodiadau dienw ar gyfer nodiadau gan fyfyrwyr."*

*"Siarad yn onest plîs. Ymyrryd mewn ardaloedd a effeithir. Dirwyon sy'n cosbi rhai dros dro."*

*"Mae cyffuriau'n ddrwg. Mae plant yn ysmygu cyffuriau i edrych yn cŵl ond maent yn dinistrio eu bywydau."*

*"Dwi'n meddwl nad oes digon yn cael ei wneud yn yr ysgol."*

*"Mae problemau cyffuriau'n broblem gyda phlant yn eu harddegau i guddio iechyd meddwl."*

Fel y crybwyllwyd eisoes, mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn darparu **agwedd fwy adferol** at droseddau cyffuriau yn hytrach na chosb. Fodd bynnag mae llawer o bobl ifanc yn **anymwybodol** o hyn, ac mae pobl eraill yn teimlo nad yw'r ymateb yn ddigonol ac y dylid mynd ymhellach:

*"Gallu ceisio cymorth heb i rieni orfod gwybod. Mae hyn yn rhoi pobl i ffwrdd weithiau."*

*"Pan mae rhywun yn cael eu harestio am gyffuriau dylent gael cymorth yn syth bin."*

*"Sicrhau eu bod nhw (yr heddlu) yn gweld os yw pobl yn iawn os ydynt yn byw mewn tŷ gyda defnyddiwr cyffuriau."*

*"Dwi'n byw yn Y Rhyl a dwi'n gweld llawer o gyffuriau'n cael eu gwerthu felly dwi'n meddwl fod angen mwy o batrolau."*

Mae pobl ifanc wedi nodi ei bod yn **hawdd cael mynediad** at gyffuriau yng Ngogledd Cymru. Mae'n amlwg fod nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y gyfradd uchel o broblemau cyffuriau yn yr ardal, ond mae pobl ifanc yn dadlau bod angen mynd i'r afael â mynediad at gyffuriau er mwyn lleihau nifer yr achosion:

*"Mae'n hawdd iawn cael cyffuriau yng nghefn gwlad a'r trefi."*

*"Maent yn hawdd cael gafael arnynt ac mae pobl wedi diflasu cymaint ei fod i'w weld yn hwyl."*

*"Cael gwiriadau ar hap yn yr ysgol."*

*" Eu hatal rhag gwneud cyffuriau. Rhaid cael mwy o weithgareddau hwyl i'w cadw oddi ar y strydoedd."*

*"Cael mwy o'r heddlu'n chwilio am droseddau yng nghefn gwlad oherwydd maent yn gyrru drwodd fel effaith."*

## Ein hargymhellion

## Ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru:

- **MYND I FUDIADAU IEUENCTID AC YSGOLION LLEOL** yn fwy rheolaidd
- **PLISMONA ARDALOEDD GWLEDIG YN RHEOLAIDD,** gan annog aelodau'r gymuned i'w hysbysu o am bryderon

## Ar gyfer y CHTh a phartneriaid:

- Sicrhau fod **ARDALOEDD A LLEOEDD HAMDDEN** ar gael i bobl ifanc dreulio amser yn rheolaidd
- Dylai addysg ar gyffuriau gael eu cyflwyno mewn ffordd empathig o'i gymharu â'r darlun 'ni a nhw' presennol

## Ar gyfer y Comisiwn Ieuenctid:

- Parhau **YMCHWIL RHWNG CYFOEDION** a gweithdai, gan godi ymwybyddiaeth am gamfanteisio a gwasanaethau cymorth
- Creu **GRŴP YMGYNGHOROL IEUENCTID,** gan hysbysu'r heddlu am bryderon a 'llecynnau' yn rheolaidd

# Blaenoriaeth 3: Ymddygiad Gwrthgymdeithasol



Yn ôl gwefan Heddlu Gogledd Cymru, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynnwys ystod o weithrediadau sy'n arwain at bobl i deimlo dan fygythiad, creu niwsans cyhoeddus, neu effaith negyddol i'r amgylchedd ac ansawdd bywyd y gymuned. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn broblem fawr mewn sawl ardal yng Ngogledd Cymru – rhwng mis Chwefror 2019 a mis Ionawr 2020 cofnodwyd 459 o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol Ngorllewin Y Rhyl, sy'n cyfrif am 15% o droseddau yn yr ardal. Nid yw'r bobl ifanc rydym wedi siarad â nhw'n credu fod y broblem yn cael ei thrin yn ddigonol ledled y wlad.

Gwnaeth pobl ifanc a oedd wedi bod ynghlwm yn y system cyfiawnder troseddol siarad â ni am gael agwedd negyddol tuag at addysg. Mynegodd pobl ifanc fod y diffyg cyfleodd i ddyheu amdanynt yn eu gadael heb gymhelliant. Mae'r cyfuniad o fynediad hawdd at gyffuriau ac alcohol, a diffyg unrhyw beth i'w wneud, yn aml yn eu tynnu at ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei gyflawni gan bobl sy'n mynd yn ieuengach o hyd oherwydd bod cyfoedion a grwpiau o bobl hŷn yn eu hannog. Dywedodd pobl ifanc fod pwysau cyfoedion yn chwarae rôl fawr mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Os nad oeddent yn cydymffurfio, roeddent yn ofni'r canlyniadau.

Yn ein cyfarfod ym Mhencadlys yr Heddlu o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, daethom yn ymwybodol o'r ychydig iawn o swyddogion sydd ar gael i ofalu am y nifer o ysgolion yn y rhanbarth. Dywedodd pobl ifanc mai prin oeddent yn gweld Swyddogion Heddlu yn eu hardal. Roedd hyn yn rhoi digon o gyfle iddynt fod ynghlwm mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol heb ofni cael eu dal.

I gyd, cafodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru **349** o sgyrsiau am ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda phobl ifanc yn yr ardal.

## Yr hyn a wnaethom ei ganfod

Mae pobl ifanc wedi'i gwneud yn glir eu bod yn credu fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn **broblem yn eu cymunedau.** Y cydsyniad cyffredinol gan y bobl ifanc y gwnaethant siarad â nhw yw eu bod wedi gweld nifer o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu hardal:

> *"Mae ymddygiad amharchus / anystyriol yn codi o gwmpas yr ardal rwyf yn byw ynddi (Prestatyn/Y Rhyl), ac mae'n ymddangos nad oes llawer yn cael ei wneud amdano."*

*"Fy marn yw bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn meddiannu ein cymunedau ac mae angen ei ddatrys."*

*"Ceir yn eistedd tu allan i McDonalds ac yn canu cyrn ac yn gwneud sŵn yn hwyr yn y nos."*

*"Mae'n digwydd mewn gormod o lefydd. Mae gan bobl ddiffiniad annilys o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Does neb yn cael eu targedu dim ond rhoi 'trefn gyhoeddus' i bawb. Nid yw cosbau'n ddigon llym."*

*"Dwi'n teimlo fod diffyg parch ymysg plant yn eu harddegau ac oedolion ifanc, er enghraifft unigolion o grŵp mawr yn gweiddi / dweud pethau, wrth fynd heibio yn y stryd. Dwi hefyd wedi sylwi ar gynnydd yn y defnydd o gyffuriau ac alcohol yn yr ardal (Prestatyn)."*

Mae pobl ifanc wedi awgrymu fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effaith uniongyrchol o **ddiflastod** – gan nad oes llawer i bobl ifanc ei wneud yn eu hardal, mae pobl ifanc yn credu fod **gweithgarwch gangiau** ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn lledaenu'n gynt:

*"Dwi'n tueddu i fynd i drafferthion pan dwi ar ben fy hun. Dwi'n diflasu, a chwilio am bethau i'w gwneud. Tydi o ddim yn grêt."*

*"Rydym yn cael ein cyhuddo o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol nad ydym hyd yn oed wedi'i wneud felly rydych yn meddwl waeth i ni wneud ddim."*

*"Er bod y broblem yn amlwg yn cael ei hymdrin, mae nifer y digwyddiadau yn ormod i'w trin. Mae llawer wedi diflasu ac mae achosi problemau i'w weld yn hobi.*

*"Mae plant yn eu harddegau wedi diflasu ac yn gweithredu gan achosi trafferth."*

*"Mwy o lefydd y gall pobl ifanc fynd i ryddhau eu hegni a lle y gallent fynd a theimlo'n ddiogel."*

Mae pobl ifanc hefyd wedi dweud eu bod yn teimlo **u bod yn cael eu targedu'n annheg** gan yr heddlu a SCCH am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent yn credu nad yw oedolion sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn cael eu trin yn yr un ffordd, a bod barn negyddol oedolion yn aml yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol pellach:

*"Dwi'n gweld ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y strydoedd o hyd gydag oedolion yn mwynhau yfed yn y stryd neu'n feddw a does neb yn dweud wrthynt am adael. Os ydym ond yn eistedd yn y parc, maent yn dweud wrthym am symud am ddim rheswm."*

*"Mae plant yn cael eu targedu a'u camddeall yn gyson."*

*"Mae gormod o oedolion â barn negyddol am bobl ifanc sy'n peri iddynt weithredu'r ffordd honno."*

*"Mae'r heddlu'n meddwl gan ein bod yn ifanc ac mewn grwpiau o ffrindiau ein bod am wneud rhywbeth drwg. Rydym fel arfer ond yn cael hwyl diniwed a dim yn gwneud dim yn anghywir."*

Mae pobl ifanc wedi dweud fod y lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngogledd Cymru yn gwneud iddynt deimlo'n **anniogel** yn eu cymunedau. Maent yn dadlau fod bod ar eu pen eu hunain yn gyhoeddus yn teimlo'n **beryglus,** yn enwedig wrth ystyried bod llai o bresenoldeb yr heddlu:

*"Panicio rhywfaint. Ddim yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar y strydoedd yn y nos yn chwysu."*

*"Ddim yn teimlo'n ddiogel yn cerdded ar y strydoedd yn y nos."*

*"Buaswn yn hoffi cael mwy o heddlu ar y strydoedd y byddai'n gwneud i mi deimlo'n fwy diogel."*

O'n sgyrsiau, mae pobl ifanc wedi awgrymu fod y **system addysg** angen gwneud mwy i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Maent yn credu fod ysgolion angen **rhyngweithio gyda'r heddlu** ac asiantaethau allanol er mwyn ymdrin â'r ffactorau sy'n creu ymddygiadau gwrthgymdeithasol:

> *"Cyflwyno swyddogion heddlu i'r ysgol i siarad am effeithiau a chanlyniadau eu gweithrediadau os yw'n parhau."*
>
> *"Ymdrin â phlant o'r ddau ryw yn ifanc, er mwyn cael effaith barhaol ar eu hymddygiad yn y dyfodol. Sicrhewch eich bod yn pwyso arnynt pam ei fod yn anghywir, a'r effaith y bydd yn ei gael ar eu bywydau wrth fynd ymlaen."*
>
> *"Dechreuwch fudiad/grŵp sy'n cael cyn garcharorion neu bobl gyda gorffennol tebyg i unigolion gwrthgymdeithasol a gadewch iddynt ateb cwestiynau."*
>
> *"O bosib, cymorth ychwanegol i unigolion drwy bwysleisio/codi ymwybyddiaeth o'r broblem drwy addysg."*

Mae'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw yn credu hefyd er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n cynnwys pobl ifanc, mae angen perthynas ddatblygedig rhwng swyddogion heddlu a'r gymuned ifanc leol. Maent yn dadlau fod pobl ifanc yn aml yn gweithredu fel amddiffyniad i'r tybiaethau rhagataliol gan yr heddlu ac oedolion eraill ynghylch yr hyn maent yn ei wneud:

> *"Siaradwch â phlant yn eu harddegau fel pobl a pheidiwch â'u trin fel rhyw fath o ddihirod."*
>
> *"Siaradwch â ni a chanfod a ydym wedi gwneud rhywbeth drwg yn gyntaf, yn hytrach na chega arnom."*
>
> *"Dylai SCCH a'r heddlu siarad am yr hyn a all weithio'n well gyda phobl ifanc."*
>
> *"Gwnewch yn siŵr fod yr heddlu'n trin oedolion a phobl ifanc yr un fath neu o leiaf gwnewch hi'n glir nad yw Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn iawn, beth bynnag fo'r oedran."*

## Ein Hargymhellion

### Ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru:

- **TRAFOD SEFYLLFAOEDD YN AGORED GYDA PHOBL IFANC** a byddwch yn ymwybodol o sefydliadau lleol y gallent **GYFEIRIO** atynt
- **ADDYSGU POBL IFANC** am ganlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol o fewn ysgolion

### Ar gyfer y CHTH a Phartneriaid:

- **GWRANDO AR BOBL IFANC** o ran cyfleusterau hamdden a gweithgareddau lleol
- Cydweithio ag asiantaethau allanol i **GREU CYMHELLION** yn benodol ar gyfer pobl ifanc
- **HYRWYDDO AC ANNOG** mentrau lle mae gwasanaethau'n **HYGYRCH** am bris bach

### Ar gyfer y Comisiwn Ieuenctid:

- Codi ymwybyddiaeth a hysbysu pobl ifanc o'u hawliau drwy **WEITHDAI RHWNG CYFOEDION**
- Gweithio gyda sefydliadau addysg i **HYRWYDDO CYMHELLION PRESENNOL** sydd ar gael

# Blaenoriaeth 4: Y berthynas rhwng Pobl Ifanc a'r Heddlu



Thema gyson drwy'r blaenoriaethau blaenorol yw bod pobl ifanc yn poeni nad yw'r heddlu un ai'n gwneud digon neu ddim â buddiannau pobl ifanc mewn golwg. Gwnaethom ganfod fod llawer o bobl ifanc ledled Gogledd Cymru yn teimlo fod gagendor rhwng pobl ifanc a'r heddlu. Gwnaeth pobl ifanc grybwyll na fyddant yn hysbysu swyddog heddlu am drosedd, gan eu bod yn teimlo na fyddent yn cael eu cymryd o ddifrif. Roeddent yn credu fod camsyniadau gyda hil ac ethnigrwydd tuag at bobl ifanc. Gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu beirniadu a'u cyfeirio fel 'codwyr twrw' gan swyddogion heddlu.

Gwnaeth pobl ifanc ddweud nad yw swyddogion heddlu o hyd yn trin sefyllfaoedd gyda phobl ifanc yn gadarnhaol. Dywedodd rhai bod swyddogion heddlu â diffyg parch tuag at bobl ifanc, beth bynnag fo'r sefyllfa. Gwnaeth pobl ifanc gyda phrofiad o'r system cyfiawnder troseddol siarad am swyddogion heddlu yn codi cysylltiadau teuluol, er enghraifft drwy ddweud, "Dwi wedi carcharu dy fam a dy ewythr a chdi fydd nesaf". Gwnaeth y duedd annheg hon wneud i bobl ifanc deimlo'n ddiwerth. Dywedodd pobl ifanc fod gan swyddogion heddlu ddiffyg cwrteisi neu agweddau cadarnhaol tuag atynt.

Fodd bynnag, gwnaethom dderbyn adborth hynod gadarnhaol o ran SCCH lleol. Roedd pobl ifanc yn teimlo cysylltiad mwy clos gyda Swyddogion Cefnogi Cymuned yr Heddlu (SCCH). Gwnaethant fynegi fod SCCH yn barod i wrando ar yr hyn roedd ganddynt i'w ddweud a derbyn unrhyw bryderon neu broblemau sydd ganddynt.

I gyd, cafodd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru 212 sgwrs am berthynas pobl ifanc gyda'r heddlu yn yr ardal.

## Yr hyn a wnaethom ei ganfod

Yn ôl y bobl ifanc rydym wedi siarad â nhw, mae'r heddlu'n rhy barod i **stereoteipio** pobl ifanc fel gangiau a gwyredigion. Mae'r stereoteipio negyddol hwn yn niweidiol i bobl ifanc gan ei fod yn creu **diffyg ymddiriedaeth** naturiol yn yr heddlu:

*"Fedrwch chi ddim osgoi eich gorffennol pan ydych yn ei chael hi am bethau na wnaethoch ei wneud dim ond oherwydd eich gorffennol.  Maent hefyd yn aflonyddu pan nad oes ganddynt ddim i'w wneud."*

*"Mae gan yr heddlu ddiffyg parch tuag at bobl ifanc a dim dealltwriaeth am ddiwylliant pobl ifanc h.y. siarad â phobl ifanc."*

*"Maent yn gwahaniaethu pobl mewn tlodi a gydag enwau drwg."*

*"Fy marn yw bod yr heddlu'n stereoteipio pobl ifanc ac aelodau eraill o'r cyhoedd. O'r hyn dwi wedi'i weld, nid yw'r berthynas rhwng pobl ifanc a'r heddlu'r orau sy'n bod."*

*"Fy marn bresennol yw na ddylai'r heddlu feirniadu pobl ifanc ar sut maent yn edrych neu'n ymddwyn."*

Mae pobl ifanc wedi awgrymu fod yr heddlu angen **rhyngweithio** gyda phobl ifanc i raddau fwy. Gan nad yw llawer o bobl ifanc yn gweld yr heddlu ar y strydoedd neu â dim rheswm am ryngweithio â nhw, gall pobl ifanc fod yr un mor euog â'r heddlu am stereoteipio. Gwnaiff lefel ryngweithio well rhwng pobl ifanc a'r heddlu weithio tuag at **leihau stereoteipio negyddol:**

*"Byddai'n dda i'r heddlu gynnal mwy o ddigwyddiadau cymunedol i annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau a gynhelir gan yr heddlu, er mwyn dangos fod yr heddlu'n barod i gynorthwyo pobl iau."*

*"Mae angen deall mwy pam fod pobl yn gwneud y pethau maent yn ei wneud yn hytrach na beirniadu pobl am sut maent yn gwisgo neu gyda phwy maent yn treulio amser â nhw."*

*"Os yw mwy o ddigwyddiadau fel hyn am ddigwydd yn amlach, gyda phobl ifanc a'r heddlu'n cyfathrebu a chysylltu, yna gall pobl ifanc eu parchu'n fwy. Os yw'r heddlu'n trin pobl ifanc yn gyfartal, gall greu mwy o ddealltwriaeth rhyngddynt."*

*"Gellir cael ei ddatrys wrth i'r heddlu ymdrin mewn ffordd wahanol a phobl ifanc yn ymateb i'r heddlu mewn modd mwy parchus."*

Mae pobl ifanc wedi awgrymu fod y berthynas wael rhwng yr heddlu a phobl ifanc oherwydd galwadau'r **heddlu am barch.** Fodd bynnag, mae pobl ifanc wedi dadlau fod hyn yn **gamddefnydd o bŵer** ac angen ei ymdrin ymhellach:

*"Mae'r heddlu yn ymdrin â phlant mewn modd ymosodol. Felly mae plant yn ymateb yn ôl a dyna sy'n achosi'r berthynas ddrwg rhwng yr heddlu a phlant."*

*"Dylai'r heddlu feddwl am y geiriau maent yn eu defnyddio a rhoi'r gorau i FYNNU parch."*

*"Dylai'r heddlu gael eu dwyn yn atebol am gam-drin grym am fygwth gydag iaith anweddus a defnyddio grym diangen. Dylai cwynion gan bobl ifanc gael eu trin gan unigolyn penodol sy'n deall pobl ifanc."*

Yn ogystal â hyn, mae pobl ifanc wedi dweud fod agwedd yr heddlu tuag atynt wedi gwneud llawer o bobl ifanc **i ofni'r** heddlu. Fodd bynnag, mae pobl ifanc wedi awgrymu eu bod yn teimlo **mwy o gysylltiad gyda'r SCCH,** gan ddweud eu bod yn fwy cyfeillgar ac yn mynd ati i geisio creu perthynas gyda phobl ifanc:

*“Mae pobl ifanc yn aml yn teimlo dychryn neu ofn siarad a delio â'r heddlu, gan fod stigma o'i gwmpas”*

*"Dwi'n credu nad ydy'r heddlu eisiau gwrando arnom ni. Maent yn credu'r hyn maent eu heisiau. Maent yn rhy ymosodol ac yn rhy barod i feirniadu ein bod wedi gwneud rhywbeth o'i le.”*

*"Maent yn foch ac yn ein trin yn ddrwg ac yn siarad yn ofnadwy. Dim ond SCCH lleol sy'n glên ac yn gwybod ein hanes fel pobl."*

*"Daeth SCCH draw atom i siarad. Roeddwn yn meddwl ei bod yn mynd i fod yn boen yn dîn hefo ni ond mi roedd hi'n glên iawn gan ddweud y dylwn wisgo côt."*

*"Mae SCCH yn yr ardal yn llawer gwell na'r heddlu am ymdrin â phobl ifanc. Maent yn siarad â chi fel rhywun arferol. Mae'r heddlu ond yn gweiddi arnoch chi ac yn ymddwyn fel eu bod yn bwysicach na neb arall."*

Mae pobl ifanc wedi dweud nad ydynt yn erbyn yr heddlu, ond eu bod eisiau i'r heddlu **wneud mwy i'w cynorthwyo** yn eu bywydau bob dydd. Maent hefyd yn awgrymu y dylai pobl ifanc geisio **cynorthwyo'r heddlu** yn fwy mewn agweddau fel hyfforddiant a chynnal cwrteisi cyhoeddus:

*"Dylent eu helpu yn hytrach na'u cosbi os ydynt angen cymorth. A bod yna iddynt."*

*"Rhowch fwy o bethau i ni ei wneud ac efallai treuliwch amser hefo ni yn hytrach na bod yn gas."*

*"Meddyliwch am bethau i ni eu gwneud fel llefydd i fynd a chael diod a bwyd."*

*"Maent angen mwy o hyfforddiant i ddeall pobl ifanc gyda phroblemau a anhwylderau iechyd meddwl."*

*"Dylai'r heddlu fod yn barod i gyfathrebu gyda phobl ifanc ar eu lefel nhw yn hytrach nac edrych i lawr arnom ni."*

## Ein Hargymhellion:

### Ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru:

- Cymryd rhan a mynd i fwy o **DDIGWYDDIADAU CYMDEITHASOL CYMUNEDOL** lle mae pobl ifanc yn debygol o fod yn bresennol
- Cymryd pwyll wrth ymdrin â phobl ifanc i gael **MWY O SGWRS** gyda nhw

### Ar gyfer y CHTH a Phartneriaid:

- Sefydliadau a phartneriaid addysgiadol i **GYDWEITHREDU** gyda Fforwm Ieuenctid Gogledd Cymru, ynghyd a'r Heddlu a **SCCH**
- Y CHTh i hyrwyddo **DIWYLLIANT CYNHWYSOL** gyda phwyslais o ran gwaith y Comisiwn

### Ar gyfer y Comisiwn Ieuenctid:

- **PARHAU I FOD YN LLAIS** i'r rhai hynny o'r meysydd anodd eu cyrraedd ac amrywiol
- Aelodau'r Fforwm i gael eu cynnwys yn **YMARFERION HYFFORDDIANT YR HEDDLU**

# Casgliad: Symud Pethau Ymlaen



Diolch i'r cymorth parhaus a ddangosir gan ein hasiantaethau partner, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a Heddlu Gogledd Cymru. Rydym yn hyderus y bydd y canfyddiadau a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn helpu i lywio a chyfrannu at waith yn y dyfodol.

Ar 27 Chwefror 2020, gwnaeth ystod eang o randdeiliaid glywed canfyddiadau ac argymhellion Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru gan ymgysylltu'n uniongyrchol gyda'n haelodau drwy drafodaethau panel agored a bwrdd crwn. Y negeseuon allweddol a gododd o'r trafodaethau oedd fel a ganlyn:

- Mae partneriaid o wahanol sectorau eisiau cymryd rhan gyda gwaith Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru i ddatblygu eu blaenoriaethau. Gwnaeth cynrychiolwyr o Heddlu Gogledd Cymru awgrymu ffyrdd am sgwrs agored rhwng yr heddlu a phobl ifanc i ganiatáu gwell dealltwriaeth rhyngddynt.

- Mae partneriaid yn frwdfrydig i weithio ar y cyd â Chomisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru er mwyn sicrhau gwell dyfodol i bobl ifanc a gwella gwaith Heddlu Gogledd Cymru.

- Roedd rhanddeiliaid yn llawn edmygedd o aelodau'r Comisiwn gan ddweud fod y gynhadledd yn ddigwyddiad diddorol a dymunol.

- Hoffai rhanddeiliaid o'r Panel Heddlu a Throsedd a Senedd Ieuenctid Cymru weld cynnydd yn aelodaeth y Comisiwn ac i aelodau ryngweithio ymhellach gyda'u grwpiau priodol.

# Cymeradwyaeth

**Arfon Jones – Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

*Mae pobl ifanc Gogledd Cymru yn grŵp amrywiol a bywiog iawn. Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, mae'n bwysig fyd mod yn deall yr anghenion a heriau plismona maent yn eu hwynebu. Fe wnes felly gomisiynu darn o waith gyda chyfranogiad pobl ifanc i'm hysbysu o'r hyn rwyf angen ei wybod.*

*Rwy'n falch iawn o waith Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru. Maent yn grŵp o unigolion ymroddedig o wahanol gefndiroedd a chyda profiadau gwahanol o blismona a'r system gyfiawnder. Mae eu gwaith ymgynghori ac ymgysylltu gyda'u cyfoedion wedi bod yn wych.*

*Maent wedi cynhyrchu adroddiad heriol i mi a'm cydweithwyr yn Heddlu Gogledd Cymru i'w ystyried. Mae eu gwaith hefyd yn mynd ymhellach i herio gwasanaethau ehangach gan gynnwys iechyd ac addysg. Rwyf yn awyddus i gydweithio â phartneriaid i ymdrin â'r prif broblemau maent wedi'u codi. Gwnaf barhau i weithio gyda phobl ifanc yn y dyfodol a chynorthwyo eu cyfranogiad gweithredol mewn ymgysylltu ac ymgynghori ag ieuenctid.*

**Ann Griffith, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

*Roedd gweithio ar y cyd â Leaders Unlocked bob cam o'r broses yn ysbrydoliaeth ac yn bleser. Oherwydd eu profiad helaeth yn gweithio yn y maes cyfranogiad ac ymgysylltiad â phobl ifanc, ac yn enwedig eu gwybodaeth a'u hyder o gael plismon fel ffocws ar gyfer eu gwaith, gwnaethant y broses gyfan i lifo'n braf.*

*Gwnaeth Leaders Unlocked groesawu cydweithrediad gyda'r Urdd er mwyn sicrhau bod dull pwrpasol wedi'i siapio ar gyfer gofynion unigryw ardal Heddlu Gogledd Cymru. Gwnaeth y Comisiwn Ieuenctid, y Sgwrs Fawr a'r Gynhadledd a arweiniodd at yr Adroddiad terfynol, adlewyrchu Agwedd Hawliau Plant a oedd yn sail i'r prosiect hwn o'i ddechrau.*

**Carl Foulkes, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

*Pobl ifanc yw ein dyfodol: mae'n cael ei ddefnyddio'n aml ond mae'n gywir. Maent yn rhan allweddol o'n cymdeithas, er na wrandewir arnynt yn aml ac maent yn cael eu gwthio i'r cyrion.*

*Mae'r darn o waith eithriadol hwn wedi rhoi adborth agored a gonest i'r heddlu a phartneriaid gan ystod eang o bobl ifanc ar sut maent yn teimlo, eu pryderon a sut mae'r rhai hynny mewn grym yn gwneud iddynt deimlo.*

*Gwnawn barhau i weithio gyda phobl ifanc i sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi o'r adroddiad hwn. Gwnawn hefyd ddefnyddio'r ethos o ymgysylltiad a chyfranogiad ieuenctid wrth symud ymlaen i barhau i herio sut mae'r gwasanaeth a gynigiwn yn bodloni eu hanghenion.*

*Roeddwn yn edmygu angerdd a gonestrwydd y rhai hynny a gyflwynodd i ni. Roedd eu parodrwydd i rannu eu hanesion yn hynod ysbrydoledig.*

**Dawn Ashton, Sorted Sir y Fflint**

*Dwi wedi bod yn gweithio gyda grŵp o bedair merch ifanc, sydd wedi'u trafod mewn sawl cyfarfod MET ac maent yn bryder mawr i'r heddlu lleol o ran Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a diogelu. Roedd y grŵp yn frwdfrydig ynghylch cael eu gofyn i rannu eu meddyliau ar y gwasanaeth heddlu. Gwnaeth y grŵp gyfarfod ag Ali, a oedd yn gallu rhoi amgylchfyd tawel ac roedd yn amyneddgar iawn wrth i'r grŵp dawelu. Roedd y sesiwn dan arweiniad rhywun ifanc ac roedd y grŵp yn onest iawn am yr agweddau cadarnhaol a negyddol y gwnaethant eu profi. Gwnaeth y bobl ifanc drafod eu bod yn teimlo mor rymus a bod rhywun yn gwrando arnynt.*

*Es i'r Comisiwn ac roeddwn yn edmygu'r gonestrwydd, proffesiynoldeb a chanfyddiadau ymchwil a gyflwynwyd gan y bobl ifanc. Clywais lawer o'r pwyntiau yr oedd y grwp yr oeddwn wedi gweithio gyda hwy wedi'u trafod. Roedd hwn yn gymaint o chwyldro, i weld pobl ifanc yn cael eu holi ar sut orau i weithio gyda rhai o'r prif broblemau mewn plismona. Gwnaeth y grwp gyflawni, fel y gwnaeth yr holl bobl ifanc a gymerodd ran. Wedi i mi ddychwelyd fe wnes i fwydo'n ôl i'r grwp yr oeddwn wedi gweithio â nhw, ar sut yr oedd eu gwybodaeth wedi'i rannu. Roeddent wedi'u syfrdanu ac yn fodlon iawn fod eu safbwyntiau wedi cael eu rhannu gyda'r heddlu (da a drwg). Gwnaethant ddweud y byddent yn dod, pe trefnid cynhadledd arall a buasent yn hoffi cyfranogi yn y dyfodol.*

*Mae'r Comisiwn mor bwysig ar bob lefel. Mae gweld amrywiaeth y bobl ifanc sydd yn y prosiect hwn a gweld y sgiliau bywyd maent yn eu creu o gyfranogiad yn rhagorol. Mae'n destament gwirioneddol i Heddlu Gogledd Cymru ar eu hempathi, athrawiaeth ac ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth gyda phobl ifanc i'n galluogi i fyw mewn cymunedau iach a diogel.*

**Joshua Taylor, Comisiynydd Ieuenctid, 16**

*Mae bod yn rhan o'r Comisiwn Ieuenctid wedi fy ngwneud yn unigolyn mwy hyderus ac wedi agor fy llygaid i'r byd mwy. Dwi wedi cael y cyfle i deithio Gogledd Cymru a chlywed safbwyntiau pobl. Dwi wedi cael y cyfle i fynd ar gyrsiau gwahanol ynghyd â'r cyfle anhygoel i fynd ar BBC Radio Cymru. Mae gweithio ar y cyd â thîm o bobl anhygoel wedi fy ngwneud yn rhywun meddwl agored ac yn well gwrandäwr a chwaraewr tîm.*

*Cyn i mi ddod yn aelod o'r Comisiwn Ieuenctid nid oeddwn erioed â'r hyder i siarad yn agored o flaen pobl. Doedd gen i ddim yr hyder i ddod yn arweinydd, ac yn sicr i beidio â dweud wrth y CHTh a'r Prif Gwnstabl sut y gallent wneud eu gwaith yn well. Mae'r Comisiwn Ieuenctid wedi fy newid er gwell. Dwi'n gobeithio defnyddio'r sgiliau y mae wedi fy nysgu yn y dyfodol a gobeithio gwneud Gogledd Cymru fwy diogel i bawb.*

**Sarah Goodsir, Comisiynydd Ieuenctid, 17**

*Helo fy enw ydy Sarah Goodsir a dwi'n 17 oed. Buaswn yn hoffi dweud wrthych chi gyd am fy nhaith, fy mhrofiadau, yr hyn dwi wedi'i elwa ohono, yr atgofion y gwnaf eu cadw a sut mae'r profiad wedi newid fy mywyd o fewn y Comisiwn Ieuenctid. Mae fy nhaith wedi bod yn agoriad llygad ac yn unigryw. Mae wedi bod yn agoriad llygad o ran yr ymatebion rydym wedi'u derbyn, y profiadau bywyd go iawn rydym wedi clywed pobl eraill yn eu rhannu ac mae'n unigryw. Nid oes cynllun tebyg i hwn. Mae'n newydd yma yng Ngogledd Cymru a bydd yn aros yn bendant. Mae'r profiadau rwyf wedi'u magu yn newid bywyd. Er enghraifft, dwi wedi cymryd rhan mewn cyfarfod hyfforddiant iechyd meddwl ynghylch yr hyfforddiant mae swyddogion heddlu rheolaidd yn ei dderbyn a sut gallwn ei newid er gwell. Dwi hefyd wedi cael profiad mewn ACES (Astudiaeth Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod), a oedd yn rhyfeddol i wrando arno.*

*Dwi wedi elwa o ffactorau defnyddiol fel y mathau gwahanol hyn o hyfforddiant, barnau a gwybodaeth bellach mewn meysydd gwahanol. Dwi hefyd wedi magu pethau twymgalon fel ffrindiau, perthynas gyda swyddogion heddlu gwahanol ac yn bennaf oll y grym i wneud gwahaniaeth. Mae ein llais yn cael ei glywed o'r diwedd! Mae'r atgofion hyn, y lluniau, y chwerthin a hyd yn oed y sgyrsiau difrifol rydym wedi'i gael yn rhywbeth y gwnaf ei yn trysori am byth. Mae hyn wedi bod yn gam mawr i mi fel unigolyn ac wedi newid fy safbwynt ar lawer o bethau mewn bywyd. Mae'r Comisiwn Ieuenctid yn mynd i fy nghynorthwyo yn fy nghamau yn y dyfodol i ddod yn swyddog heddlu llwyddiannus. Dwi'n wir obeithio parhau i leisio fy marn nid yn unig fel rhywun ifanc ond fel oedolyn hefyd.*

*Gwnaf o hyd annog clywed lleisiau'r ieuenctid. Dwi'n gobeithio y gwnaiff y prosiect hwn barhau, ac mae'n newid bywyd yn gyfan gwbl. Dwi'n gobeithio y bydd pobl ifanc eraill yn cael yr un cyfle arbennig rydym ni wedi'i gael a phrofi'r un pethau.*

**Louise Edwards, Comisiynydd Ieuenctid, 22**

*Mi wnes i ymgeisio i ymuno â Chomisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru ar Heddlu a Throsedd er mwyn cael y cyfle i gael llais mewn materion sy'n effeithio fy nghymuned a sicrhau y gwrandewir ar ystod amrywiol o leisiau pobl ifanc. Dwi'n credu ei bod yn bwysig creu strwythur dibynadwy a chynaliadwy sy'n caniatáu pobl ifanc i gael dylanwad go iawn ar blismona a throsedd yng Ngogledd Cymru wrth dynnu sylw at bosibilrwydd sut y gall plismona edrych gyda mwy o ymgysylltiad gyda phobl ifanc ledled Cymru. Mae hwn yn brosiect arloesol lle mae pobl ifanc yng Ngogledd Cymru wedi cael y cyfle i wneud hyn am y tro cyntaf. Dwi'n teimlo ei bod hi'n hanfodol y dylai pobl ifanc o ystod amrywiol o gefndiroedd gael y cyfle i gael eu barn a'u lleisiau wedi'u clywed a chanolbwyntio ar gymunedau ymylol fel pobl ddigartref, BAME, teuluoedd incwm isel, pobl ifanc wedi profi gofal a'r rhai hynny mewn gwasanaethau troseddol. Yn ystadegol, maent yn fwy tebygol o gael neu wedi cael profiad o'r heddlu a throseddoldeb.*

*Yn dod o stad gyngor yn wynebu tlodi modern, fe wnes i dyfu wedi fy amgylchynu gan droseddoldeb. Mewn dim o dro roeddwn â chysylltiad cryf â throsedd ar y cyd â llawer o fy ffrindiau a theulu. Roedd hyn yn ffordd arferol o fyw, lle defnyddiwyd trais i ddatrys popeth, a phrin oedd cyswllt â'r heddlu. Roedd y diwylliant 'talu'r pwyth am brepian' yn chwarae rhan fawr. Mae'n parhau i chwarae rhan fawr mewn llawer o gymunedau. Mabwysiadwyd y meddylfryd hwn i mi gan fy mam ac aelodau hŷn y teulu. Dechreuais newid fy nghredoau am yr heddlu ond tra roeddwn mewn gofal i ffwrdd o'm teulu a'u disgwyliadau o normalrwydd. Am y tro cyntaf yn fy mywyd cafodd swyddog heddlu sgwrs â mi. Nid oedd yno i wneud bywyd yn uffern. Roedd eisiau deall pam fy mod yn ymddwyn fel yr oeddwn ac roedd eisiau gwybod sut y gallai fod o gymorth! Gwnaeth fy nghynorthwyo i sylweddoli fod yr hyn roeddwn yn ei wneud yn fy arwain lawr y llwybr dinistriol nad oeddwn yn ei weld. Ond yn bwysicaf oll, fe wnaeth fy nghynorthwyo i weld fod yr heddlu yno i fod o gymorth. Yn hytrach na brwydro'n ôl neu geisio dial, buaswn yn ffonio'r heddlu a gadael iddynt wneud eu gwaith. Mae creu perthynas gref a chadarnhaol gyda phobl ifanc yn hanfodol i ddeall ei gilydd. Rydym yn byw mewn dau fyd gwahanol. Mae pobl ifanc yn parhau i ddysgu a gwnânt lawer o benderfyniadau anghywir yn eu bywydau. Dyna ffordd y mae pobl i gyd yn dysgu a dylai pobl gael symud ymlaen o'r camgymeriadau hyn. Y nod yw peidio â pharhau i gael eich labelu a bod disgwyl i chi ailadrodd eich gweithrediadau. Pan nad yw rhywun yn dysgu o'u camgymeriadau a bod patrymau'n dod i'r amlwg, mae'n bwysig deall pam! O hyn gallwn ddechrau atal mynd lawr y llwybr troseddu.*

*Mae creu perthynas gref a chadarnhaol gyda phobl ifanc yn hanfodol i ddeall ei gilydd. Rydym yn byw mewn dau fyd gwahanol. Mae pobl ifanc yn parhau i ddysgu a gwnânt lawer o benderfyniadau anghywir yn eu bywydau. Dyna ffordd y mae pobl i gyd yn dysgu a dylai pobl gael symud ymlaen o'r camgymeriadau hyn. Y nod yw peidio â pharhau i gael eich labelu a bod disgwyl i chi ailadrodd eich gweithrediadau. Pan nad yw rhywun yn dysgu o'u camgymeriadau a bod patrymau'n dod i'r amlwg, mae'n bwysig deall pam! O hyn gallwn ddechrau atal mynd lawr y llwybr troseddu.*

# Atodiad

| Sefydliad | Rhanbarth | Nifer yr ymatebion |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Ieuenctid Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WGLA) | Abergele, Bae Colwyn | 51 |
| Gwasanaeth Ieuenctid Conwy | Conwy | 12 |
| Ysgol Uwchradd Elfed | Bwcle | 160 |
| Ysgol Uwchradd Elfed | Yr Wyddgrug | 32 |
| Friday Fitness Y Rhyl | Y Rhyl | 38 |
| Ysgol Glan Clwyd | Llanelwy | 366 |
| John Lynns Black Belt Academy | Y Rhyl | 2 |
| Coleg Llandrillo | Ledled Gogledd Cymru gan gynnwys Llandrillo yn Rhos, Y Rhyl, Menai | 111 |
| Gwasanaeth Ieuenctid Rhuthun | Rhuthun | 11 |
| Gofalwyr Ifanc WCD | Llanrwst/Llandudno | 27 |
| Gofalwyr Ifanc WCD | Wrecsam | 175 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam | Wrecsam | 41 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn | Ynys Môn | 15 |
| Youth Shedz | Abergele | 41 |
| Grŵp Cymorth Ieuenctid Ysgol Uwchradd Dinbych | Dinbych | 37 |
| Ysgol David Hughes | Ynys Môn | 30 |
| Grŵp Ffitrwydd Ysgol John Bright | Llandudno | 10 |
| Ysgol Treffynnon | Treffynnon | 71 |
| Ysgol Gatholig Crist y Gair | Y Rhyl | 60 |

LEADERS
UNLOCKED

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES